

PENODI AELODAU ANNIBYNNOL I AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU



Pecyn Gwybodaeth

Mai 2022

Cynnwys

Croeso	2
Cyflwyniad	2
Y Pwyllgor Safonau	2
Y Cod Ymddygiad	3
Yr Aelodau Annibynnol	3
Cymhwysedd ar gyfer Dethol	4
Budd dod yn Aelod Annibynnol	4
Y Penodiadau a'r broses ddethol	5
Yr Amserlen	5
Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau	6
Swydd Ddisgrifiad	7
Manyleb Person	8
Ffurflen Gais Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau	10



Croeso

Diolch am fynegi diddordeb mewn gweithio gydag Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Mae ein Pwyllgor Safonau yn rhoi mewnbwn annibynnol gwerthfawr i'r gweithdrefnau a'r protocolau y mae'n rhaid i aelodau eu dilyn, ac mae recriwtio pobl â'r sgiliau a'r agwedd iawn yn allweddol i'r llwyddiant hwn.

Gobeithiwn fod y cyfle hwn o ddiddordeb i chi ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

	Geraint Thomas Prif Swyddog Cynorthwyol Dros Dro Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro Swyddog Monitro Rhif ffôn: 01443 232000		Sarah Watkins Pennaeth Cymorth Corfforaethol Dirprwy Swyddog Monitro Rhif ffôn: 01443 232000
---	--	--	--

Cyflwyniad

Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn chwilio am un person llewg i wasanaethu fel aelod annibynnol ar ei Bwyllgor Safonau.

Bydd y gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn fantais. Bydd yr angen i sicrhau cydbwysedd o sgiliau, rhinweddau ac arbenigedd ar y Pwyllgor, yn ogystal â'r angen i gynrychioli'r gymuned gyfan a chyflawni gwasgariad daearyddol, hefyd yn cael ei ystyried.

Y Pwyllgor Safonau

Mae'r Pwyllgor Safonau yn chwarae rhan ganolog yn y fframwaith moesegol sy'n rheoli ymddygiad aelodau etholedig. Mae pob aelod o awdurdod lleol ac o bob cyngor cymuned a thref wedi ymrwymo i gadw at y Cod Ymddygiad i Aelodau. Prif rôl y Pwyllgor yw hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan yr aelodau hyn a'u cynorthwyo i gynnal Cod Ymddygiad yr Aelodau.

Mae gan y Pwyllgor swyddogaethau penodol gan gynnwys ystyried cwynion bod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad a gosod sancsiwn lle bo'n briodol. Mae hefyd yn ystyried ceisiadau gan aelodau am ollyngiadau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.

Mae Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn (oni bai bod busnes brys i'w drafod) ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn Llantrisant. Gall aelodau fynychu'r cyfarfod yn bersonol neu'n rhithiol gan ddefnyddio gallu fideo-gynadledda. Yn gyffredinol, cynhelir y cyfarfodydd yn hwyr yn y prynhawn ar amser y cytunwyd arno gan aelodau'r pwyllgor.



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 3 Aelod Awdurdod Tân a 5 aelod annibynnol nad ydynt yn Gynghorwyr. Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Awdurdod ar y Cod Ymddygiad ar gyfer yr holl Aelodau ac aelodau cyfetholedig ill dau. Mae hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo a datblygu safonau ymddygiad uchel, darparu a threfnu hyfforddiant, ac ystyried cwynion yn erbyn Cynghorwyr.

Mae aelodau annibynnol yn cael eu talu yn unol â chyfraddau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Cod Ymddygiad

Bydd yn ofynnol i Aelodau Annibynnol a benodir i'r Pwyllgor Safonau ymrwymo i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Mae copi o'r Cod i'w weld ar y [ddolen](#) hon a dylid ei ystyried yn ofalus wrth i'w egwyddorion arwain y Pwyllgor Safonau yn eu gwaith. Bydd y Panel yn gofyn cwestiynau sy'n ymwneud â'r Cod yn y cyfweiliad. Bydd hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau Cofrestr Buddiannau ar ddechrau ei gyfnod yn y swydd a pharhau i ddatgelu buddiannau a gweithredu'n unol â hynny drwy gydol y tymor hwnnw.

Yr Aelodau Annibynnol

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth a didueddrwydd wrth gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau i hyrwyddo, cynnal a gwella trefniadau moesegol o fewn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Mae gwaith y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau annibynnol feddu ar y rhinweddau, y sgiliau a'r gofynion a ganlyn a'u bodloni: -

- sgiliau gwranddo
- gallu i ddeall a phwyso a mesur tystiolaeth
- y gallu i gyrraedd barn wrthrychol ac egluro'r farn honno trwy gyfeirio at y dystiolaeth
- sgiliau gweithio mewn tim
- parch at eraill a dealltwriaeth o faterion amrywiaeth
- disgresiwn
- hygyrddedd personol
- peidio â chymryd rhan weithredol mewn gwleidyddiaeth leol na chenedlaethol
- heb gael unrhyw anghydfodau sylweddol yn y gorffennol gyda'r Awdurdod
- heb gael unrhyw anghydfodau sylweddol yn y gorffennol gyda'r Awdurdod

Nid oes angen gwybodaeth fanwl am lywodraeth leol er y byddai'n fantais pe byddai gan ddarparu ymgeiswyr ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud â bywyd cyhoeddus a gwasanaethau.

Rhaid i aelodau annibynnol fod yn:-



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

- gymwys i gael ei ddewis fel aelod annibynnol (gweler yr adran 'Cymhwysedd ar gyfer dethol');
- uchel eich parch yn y gymuned
- gallu bodloni'r ymrwymiad amser gofynnol;
- gallu rhoi dau eirida:
- 18 oed neu'n fwy.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau ar eu swydd o 01 Medi 2022 a gwasanaethu, yn amodol ar derfynu neu ymddiswyddiad, am gyfnod rhwng 4 a 6 blynedd. Mae posibilrwydd hefyd o gael eich ail-benodi am gyfnod pellach o rhwng 4 a 6 blynedd.

Cymhwysedd ar gyfer dethol

Ni all y personau canlynol fod yn Aelod Annibynnol o ran y gyfraith:

- Cyngorydd neu Swyddog mewn swydd (neu briod neu bartneriaid sifil Cyngorydd neu Swyddog) Awdurdod Unedol:
- Awdurdod Tân ac Achub
- Awdurdod Parc Cenedlaethol
- Cyngor Cymuned / Tref
- Cyn-aelodau Awdurdod Tân neu Swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Manteision dod yn Aelod Annibynnol

Mae yna lawer o resymau pam fod pobl yn dewis cymryd rhan fel hyn.

- I ehangu eu gwybodaeth a'u profiad
- Gwellu a datblygu eu CV er mwyn datblygu eu gyrfa
- Rhoi rhywbeth yn ôl, gan rannu eu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad
- Y cyfle i weithio gyda phobl newydd ac i gael profiad o wahanol ddulliau sefydliadol
- Y cyfle i rwydweithio gyda grŵp ehangach o bobl sydd â'r potensial i wella meysydd eraill o'u bywyd a/neu waith
- Fel sbardun i ymwneud â phwyllgorau eraill / cyrff adolygu annibynnol

Beth bynnag yw'r rheswm dros ystyried dod yn Aelod Annibynnol, hoffem glywed gennych yn wirioneddol.



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Y broses benodi a dethol

Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod pob recriwtio yn rhydd o unrhyw fath o wahaniaethu.

Rhaid cyflwyno ceisiadau ar y Ffurflen Gais ynghlwm.

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu cyfweld gan banel sy'n cynnwys:

	Geoff Hughes Cadeirydd Annibynnol Pwyllgor Safonau GTADC		Ronnie Alexander Aelod Annibynnol Pwyllgor Safonau GTADC
	Geraint Thomas Prif Swyddog Cynorthwyol Dros Dro Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro Swyddog Monitro		Sarah Watkins Pennaeth Cymorth Corfforaethol Dirprwy Swyddog Monitro

Yr Amserlen

- Dyddiad Cau ar gyfer ceisiadau 12:00 Dydd Gwener yr 8fed o Orffennaf 2022.
- Llunio Rhestr Fer: Wythnos yn cychwyn y 12fed o Orffennaf 2022
- Hysbysu am dynnu rhestr fer: Wythnos yn cychwyn yr 18fed o Orffennaf
- Cyfweiliadau: Yr 28ain o Orffennaf 2022 ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes, Forest View, Llantrisant, Ynysymaerdy, Pont-y-clun CF72 8LX

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau ar ei swydd o 01 Medi 2022.

Bydd apwyntiadau yn cael eu cadarnhau trwy law e-bost.

Os hoffech wybod mwy am ddod yn Aelod Annibynnol, mae croeso i chi anfon e-bostiwrch neu ffonio: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol / Swyddog Monitro Geraint Thomas ar 01443 232074 neu anfonwch e-bost GB-Thomas@decymru-tan.gov.uk.

Mae rhagor o fanylion am y rôl a ffurflen gais hefyd ar gael yn www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/.



Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau fel a ganlyn:

1. Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig.
2. Cynorthwyo Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau.
3. Cynghori'r Awdurdod ar fabwysiadu neu adolygu Côt Ymddygiad yr Aelodau.
4. Monitro gweithrediad Côt Ymddygiad yr Aelodau
5. Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau.
6. Rhoi goddefebau i Gynghorwyr yn ymwneud â buddiannau a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau.
7. Delio ag unrhyw adroddiadau gan dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y swyddog monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Gomisiynydd Lleol Cymru.
8. Adolygu, monitro a herio cynnwys ac effeithiolrwydd polisiâu, gweithdrefnau, nodiadau canllaw a dogfennau eraill yr Awdurdod a luniwyd i atal achosion o dorri Deddf Llwgrwobrwy 2010 o fewn y Sefydliad a gwneud argymhellion i wella'r rhain i leihau'r risgiau i'r Awdurdod.



Disgrifiad Swydd

Disgrifiad Swydd – Aelod Annibynnol o Bwyllgor Safonau

1. Atebolrwydd

- I'r holl Awdurdod Tân
- I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

2. Rôl, pwrpas a gweithgaredd

Deall natur y Pwyllgor Safonau a chyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol drwy:

- Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig;
- Cynorthwyo Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau;
- Monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau;
- Caniatáu gollyngiadau i Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig
- Ymdrin ag unrhyw adroddiadau gan dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Meddu ar wybodaeth dechnegol a gweithdrefnol ddigonol i gyfrannu'n deg ac yn gywir at swyddogaethau'r Pwyllgor.
- Bod yn drylwyr a gwrthrychol wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd a materion fydd gerbron y Pwyllgor.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau
 - Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau
 - Gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, o fewn swyddogaethau'r Pwyllgor, sy'n cyd-fynd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi
- Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd
 - Sicrhau hygrededd penderfyniadau'r Pwyllgor a'i rôl ei hun drwy gadw at y Cod Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
 - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor
 - Deall rolau priodol Aelodau, Swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn cyfrifoldebau maes y Pwyllgor Safonau.

3. Gwerthoedd

- Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Gwasanaeth a'r egwyddorion canlynol mewn swydd gyhoeddus:
 - Anhunanoldeb
 - Gonestrwydd
 - Hygrededd a phriodoldeb
 - Dyletswydd i gynnal y gyfraith
 - Gwrthrychedd a gwneud penderfyniadau
 - Cydraddoldeb a pharch
 - Didwylledd
 - Atebolrwydd
 - Arweinyddiaeth
 - Stiwardiaeth



Manyleb Person

Nodyn i ymgeiswyr – Mae'r meini prawf dethol yn nodi'r wybodaeth, y profiad, y sgiliau, y galluoedd, y cymwysterau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gyflawni dyletswyddau'r swydd yr ydych yn gwneud cais amdani.

Yn eich cais bydd angen i chi esbonio sut mae eich gwybodaeth, profiad, sgiliau, galluoedd a enillwyd mewn gwaith cyflogedig neu ddi-dâl, astudio neu hyfforddi, yn bodloni pob un o'r meini prawf dethol a nodir '*' isod, gan gynnwys eich ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyflogaeth a darparu gwasanaethau, Heb wneud hynny, ni fyddwch yn cael eich rhoi ar y rhestr fer.

Bydd y rhestr fer yn cael ei llunio ar sail asesu'r meini prawf dethol a nodir '**Hanfodol**'.

Gwybodaeth	Dull Asesu	Hanfodol / Dymunol
Gallu dangos ystod o wybodaeth a phrofiad sy'n ychwanegu gwerth at waith y Pwyllgor Safonau.	Ffurflen Gais/ Cyfweliad	Hanfodol
Gallu dangos ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig dinasyddion De Cymru. Ymrwymiad i gyfle cyfartal ac i gysylltiadau da rhwng gwahanol gymunedau.	Ffurflen Gais	Hanfodol
Dealltwriaeth o rôl y Gwasanaeth, ei Aelodau a Llywodraeth Leol yn gyffredinol.	Ffurflen Gais	Dymunol
Dealltwriaeth gyffredinol o'r egwyddorion y tu ôl i God Ymddygiad yr Aelodau.	Cyfweliad	Hanfodol
Sgiliau a Galluoedd	Dull Asesu	Hanfodol / Dymunol
Dealltwriaeth gyffredinol o'r egwyddorion y tu ôl i God Ymddygiad yr Aelodau.	Ffurflen Gais / Cyfweliad	Hanfodol
Gallu dadansoddi problemau a materion yn wrthrychol a rhoi cyngor diduedd eglur ar lafar ac yn ysgrifenedig	Ffurflen Gais / Cyfweliad	Hanfodol
Person sy'n barod i roi rhesymau dros benderfyniadau neu gamau a gymerwyd yn agored wrth barchu materion cyfrinachedd.	Ffurflen Gais / Cyfweliad	Hanfodol
Gallu dangos gonestrwydd ac uniondeb.	Ffurflen Gais / Cyfweliad	Hanfodol
Dangos ymrwymiad i ddemocratiaeth leol, ymglymiad cymunedol a budd y cyhoedd.	Ffurflen Gais /	Dymunol



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

--	--	--



Ffurflen Gais -Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau

Dylech ddarllen y manyleb person cyn i chi gwblhau'r ffurflen.

MANYLION PERSONOL - Defnyddiwch prif lythrennau ar gyfer yr adran hon

Teitl	
Cyfenw	
Enw(au) blaen	
Dyddiad Geni:	
Cyfeiriad:	
Cod Post	
Rhif Ffôn Dydd	
Rhif Ffôn Nos	
Rhif Ffôn Symudol	
E-bost	

CYFFREDINOL - Bydd canfasio Aelodau neu Swyddogion mewn perthynas â'r penodiad hwn yn eich diarddel.

Ydych chi'n perthyn i, neu'n ffrind neu mewn perthynas bersonol ag Aelod, aelod cyfetholedig, neu swyddog o'r Awdurdod?	Ticiwch YDW ☐ NAC YDW ☐ Os mai 'OES' a atebwch, rhowch enw'r Aelod neu Swyddog: Sut rydych chi'n perthyn?
Ydych chi'n aelod o unrhyw blaid wleidyddol?	Ticiwch YDW ☐ NAC YDW ☐
Ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig o unrhyw awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall ar hyn o bryd?	Ticiwch YDW ☐ NAC YDW ☐ Os mai 'YDW' a ateboch, manylwch ymhellach os gwelwch yn dda
Ydych chi'n gweithio i awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall? Os mai 'Ydw' a ateboch, manylwch ymhellach os gwelwch yn dda	Ticiwch YDW ☐ NAC YDW ☐ Os mai 'YDW' a ateboch, manylwch ymhellach os gwelwch yn dda



Ydych chi'n gallu mynychu cyfarfodydd gyda'r
nos ac yn achlysurol yn ystod y dydd?

Ticiwch YDW ☐ NAC YDW ☐



CYFLOGAETH A PHROFIAD PERTHNASOL ARALL

Ydych chi'n gyflogedig?	Ticiwch YDW ☐ NAC YDW ☐
Os mai 'NAC YDW' a ateboch ydych chi wedi ymddeol?	Ticiwch YDW ☐ NAC YDW ☐
Os ydych chi'n gyflogedig, a oes modd cysylltu â chi yn y gwaith?	Ticiwch OES ☐ NAC OES ☐
Os mai 'OES' a ateboch, nodwch rhif ffôn a/cyfeiriad e-bost os gwelwch yn dda.	
Rhowch ddisgrifiad byr o'r dyletswyddau / profiad sy'n berthnasol i'r swydd hon	



ADDYSG, HYFFORDDIANT A CHYMWYSTERAU

Rhestrwch unrhyw gymwysterau a enillwyd, cyrsiau hyfforddi a fynychwyd ac aelodaeth o unrhyw gyrff proffesiynol, os o gwbl, gyda dyddiadau.



PROFIAD/ SGILIAU/ GWYBODAETH BELLACH

Nodwch sut mae eich profiad, sgiliau a chyflawniadau hyd yma, o fewn a thu allan i waith cyflogedig, neu drwy astudio, yn eich gwneud yn ymgeisydd addas ar gyfer y swydd hon. Sicrhewch eich bod wedi darllen y disgrifiad swydd a manyleb yr ymgeisydd ar gyfer y swydd ac wedi rhoi digon o wybodaeth i ni ddisgrifio sut yr ydych yn bodloni pob un o'r gofynion a nodir ym manyleb yr ymgeisydd.

Gallwch barhau ar ddalen ychwanegol. Gwnewch yn siŵr bod eich enw ar unrhyw ddalen ychwanegol.





Budd - Sut ydych chi'n meddwl y bydd eich aelodaeth o fudd i'r Awdurdod?

Gallwch barhau ar ddalen ychwanegol. Gwnewch yn siŵr bod eich enw ar unrhyw dudalennau ychwanegol.



CANOLWYR

Rhowch enw a chyfeiriad a manylion cyswllt DAU berson sydd wedi cytuno i weithredu fel eich canolwr ar gyfer y swydd hon. DS: Ni ddylent fod yn aelodau teulu.

Canolwr 1		Canolwr 2	
Teitl		Teitl	
Cyfenw		Cyfenw	
Enw(au) Blaen		Enw(au) Blaen	
Cyfeiriad:		Cyfeiriad:	
Cod Post		Cod Post	
Rhif Ffôn / Rhif Ffôn Symudol		Rhif Ffôn / Rhif Ffôn Symudol	
E-bost		E-bost	

DATGANIAD

Yr wyf yn datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth, fod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac nad wyf wedi hepgor unrhyw ffeithiau a allai effeithio ar fy nghais. Rwy'n deall, os canfyddir bod unrhyw ran o'r wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn anghywir, y gallir terfynu fy aelodaeth o'r Pwyllgor.

Llofnod:	
Dyddiad:	

DEDDF AILSEFYDLU TROSEDDWYR

Mae'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyd yn darparu, ar ôl cyfnod o amser, y gall pobl a gafwyd yn euog o droseddau ac wedi cyflawni eu dedfrydau neu wedi talu eu dirwy gyda rhai eithriadau, gael eu hailsefydlu a'u caniatáu i drin y gollfarn fel un sydd "wedi darfod". Os oes gennych unrhyw euogfarnau troseddol nad ydynt wedi "darfod", datgelwch yr euogfarnau hynny.

Cwblhewch y datganiad canlynol os gwelwch yn dda:

Enw:	
Swydd y gwneir cais amdani:	
A oes gennych euogfarn(au) troseddol?:	Ticiwch OES ☐ NAC OES ☐
Os mai Ydw yw eich ateb, rhowch fanylion llawn y drosedd(au) a'r euogfarn(au)	
Llofnod:	
Dyddiad:	

Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais wedi'i chwblhau gan gynnwys unrhyw daflenni ychwanegol at: Gyda'r Post Geraint Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol / Swyddog Monitro,



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes, Forest View, Llantrisant,
Ynysymaerdy, Pont-y-clun CF72 8LX neu drwy law e-bost GB-Thomas@decymru-tan.gov.uk.

